RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
13/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2017

# Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014: Canolbarth Cymru

© Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-4734-9248-6

**Teitl: Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014**
**Is-deitl: Canolbarth Cymru**
**Awdur: Patience Eastwood**

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Patience Eastwood

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth,

Ceredigion

SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2278

E-bost: patience.eastwood@wales.gsi.gov.uk

## Canolbarth Cymru

| Teithiau (miloedd) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydan Fawr) | 1,618 | 1,717 | +6% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 80 | 82 | +3% |
| Ymweliadau dydd | 11,000 | 13,000 | +18% |
| Cyfanswm | 12,698 | 14,799 | +17% |

| Gwariant (£ miliwn) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydain Fawr) | 262 | 281 | +7% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 35 | 37 | +6% |
| Ymweliadau dydd | 371 | 371 | 0% |
| Cyfanswm | 668 | 689 | +3% |

Mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys awdurdodau lleol Powys a Cheredigion. Powys yw'r ardal sydd â'r dwyster poblogaeth lleiaf yng Nghymru ac yn ail safle yng Nghymru a Lloegr, gydag ond 26 o bobl y cilometr sgwâr, tra bod Ceredigion, gyda dwyster poblogaeth o 43 o bobl y cilometr sgwâr, hefyd ymhlith y pum ardal â'r dwyster poblogaeth isaf yng Ngymru a Lloegr, ac yn ail safle o ran dwyster poblogaeth isel yng Nghymru.

Ni fydd yn syndod i neb felly fod mwyafrif helaeth o'r rhanbarth hwn wedi'i gategoreiddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn "bentrefi, yn bentrefannau ac yn anheddau ynysig". Yr unig eithriadau yw ardaloedd bach o gwmpas y prif drefi, a pheth o'r ardal fwyaf dde-ddwyreiniol.

Prif drefi'r rhanbarth yw trefi prifysgol Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, yn ogystal â'r Drenewydd, Llandrindod, Llanfair ym Muallt - cartref i faes Sioe Frenhinol Cymru y Gelli lleoliad Gŵyl y Gelli ac Aberhonddu. Mae mwyafrif Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sydd hefyd yn un o'r ddau Safle Wybren Dywyll yng Nghymru, yn y rhanbarth hwn, yn ogystal â mwy na hanner Biosffer Dyfi.

## 1. Ymweliadau dros nos o'r DU


Daw data yn yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2012-2014 oni nodir fel arall. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.

Mae ymweliadau â'r Canolbarth yn cyfrannu rhyw 17% o'r holl ymweliadau dros nos o'r DU â Chymru, yn llai nag unrhyw ranbarth arall. Mae'r gwariant ar yr ymweliadau yma hefyd yn 17% o gyfanswm gwariant yng Nghymru ar ymweliadau dros nos o'r DU.

Gostyngodd nifer yr ymweliadau dros nos â'r Canolbarth ychydig o fan cychwyn 1,642,000 o deithiau y flwyddyn yn 2006-08, ond mae wedi bod adferiad ers 2010-12, ac ar hyn o bryd ceir cyfartaledd blynyddol o 1,717,000 o deithiau, yn fwy nag ar ddechrau'r cyfnod.

Mae gwariant ar deithiau dros nos i'r Canolbarth wedi codi'n weddol gyson dros y naw mlynedd diwethaf, o gyfartaledd blynyddol o £239 miliwn yn 2006-08 i £281 miliwn y flwyddyn yn 2012-14.


Ffig1.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau dros nos o'r DU)





**Diben y Daith**

Mae gan y canolbarth gyfran ychydig yn uwch o deithiau dros nos ar gyfer gwyliau na Chymru yn ei chyfanrwydd, ond gyda chyfrannau yn gyfatebol is o ymweliadau â ffrindiau neu'r teulu a theithiau busnes.


Ffig. 1.2: Ymweliadau fesul Chwarter (Ymweliadau dros nos o'r DU)




Ffig.1.3: Diben yr Ymweliad (Ymweliadau dros nos o'r DU)



Ffig. 1.4: Y math o le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau dros nos o'r DU)




**Patrwm tymhorol**

Oherwydd cyfrannau uwch o deithiau ar gyfer gwyliau, roedd teithiau dros nos o'r DU hyd yn oed yn fwy tebygol o ddigwydd yn ystod tymor brig yr haf, h.y. y misoedd Gorffennaf, Awst a Medi. Dengys y Canolbarth batrwm tymhorol mwy pendant nag unrhyw ranbarth arall, gyda 40% o'r holl deithiau yn dechrau yn ystod y misoedd Gorffennaf-Medi.

**Y Math o Le**

Y math o gyrchfan mwyaf poblogaidd ar gyfer ymweliadau dros nos o'r DU oedd glan mor, braidd yn syndod yn achos rhanbarth sydd â llai o arfordir na'r cyfartaledd argyfer Cymru gyfan.

Y math o gyrchfan lleiaf poblogaidd oedd dinas neu dref fawr: roedd ymwelwyr â'r rhanbarth hwn y lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi aros mewn dinas neu dref fawr. Mae hyn yn llai o syndod oherwydd diffyg dinasoedd a threfi mawr yn y rhanbarth (gellir dadlau nad oes trefi mawr o gwbl yn y rhanbarth hwn!)

Y sawl sy'n ateb yr arolwg sy'n cael dewis categori'r gyrchfan ac felly mae'r dewis hwnnw'n oddrychol. Gallai rhywun roi Aberystwyth, er enghraifft, o dan y categori "glan môr" neu "tref fach", neu "tref fawr" hyd yn oed, gan ddibynnu ar farn y sawl ar Aberystwyth.

**Rhanbarth tarddiad**

Tabl 1.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau dros nos o'r DU)


| Rhanbarth Tarddiad | Cyfartaledd Blynyddol Teithiau, (Miloedd) | Cyfran o Holl Teithiau i De-Orllewin Cymru |
|---|---:|---:|
| Yr Alban | 25 | 1% |
| Cymru | 358 | 21% |
| Gogledd-Ddwyrain Lloegr | 14 | 1% |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 240 | 14% |
| Swydd Efrog / Glannau Humber | 53 | 3% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 101 | 6% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 455 | 26% |
| Dwyrain Lloegr | 76 | 4% |
| Llundain | 63 | 4% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 149 | 9% |
| De-Orllewin Lloegr | 183 | 11% |

Allan o ranbarthau Cymru i gyd, mae gan y rhanbarth hwn y gydran fwyaf o ymwelwyr dros nos o Orllewin Canolbarth Lloegr, gydag chwater o ymwelwyr dros nos o'r DU yn dod o Orllewin Canolbarth Lloegr. Cyfran ychydig yn is na'r cyfartaledd o ymwelwyr sy'n tarddu o fewn Cymru. Mae cyfran uchel yr ymwelwyr o Orllewin Canolbarth Lloegr bron yn sicr o fod oherwydd agosrwydd daearyddol rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr, yn ogystal â chysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys rheilffordd Aberystwyth-Birmingham.

**Math o lety**

Mae ymwelwyr dros nos Prydeinig â Chanolbarth Cymru yn fwyaf tebygol o aros mewn llety carafanio neu gwersylla, gyda'r rhanbarth yma yn croesawu'r gyfran fwyaf o ymwelwyr sy'n defnyddio'r mathau hyn o lety o unrhyw ranbarth yng Nghymru. Mae gan y rhanbarth y ganran isaf o ymwelwyr Prydeinig dros nos sy'n aros mewn gwestai a thai llety. Noder bod yr ymwelwyr a arhosodd yn eu carafán eu hunain yn cael eu cynnwys yn ffigurau 'gwersylla a charafanio' yn hytrach nag yn ffigurau 'cartref ei hun/ffrind/perthynas'.

Ffig. 1.5: Y Math o Lety (Ymweliadau dros nos o'r DU)




## 2. Ymweliadau Rhyngwladol

Daw data yn yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2010-14 oni nodir fel arall. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.

Croesawa'r Canolbarth gyfran gymharol fach o ymweliadau o dramor, tua 9% o gyfanswm Cymru, a chyfran debyg o wariant ar ymweliadau o dramor (tua 10% o'r holl wariant).

Mae nifer yr ymweliadau rhyngwladol â'r Canolbarth wedi gostwng o 2002-04, pan gafwyd, ar gyfartaledd, 90,000 o ymweliadau y flwyddyn, o'u cymharu â 82,000 y flwyddyn y blynyddoedd 2010-14. Mae gwariant, fodd bynnag, wedi codi o gyfartaledd o £23 miliwn y flwyddyn i £37 miliwn yn flwyddyn dros yr un cyfnod.


Ffig. 2.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Diben yr Ymweliad**

Mae ychydig dros hanner y teithiau rhyngwladol i'r Canolbarth ar gyfer gwyliau, canran uwch nag yn unrhyw ranbarth arall. Mae cyfran is o ymwelwyr busnes na'r cyfartaledd ar lefel Cymru gyfan.


Ffig. 2.2: Diben y Daith (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Gwlad Tarddiad**
Y wlad tarddiad fwyaf cyffredin ar gyfer ymwelwr rhyngwladol â'r Canolbarth oedd Gweriniaeth Iwerddon, ac wedyn yr Almaen a Ffrainc.

**Trefi poblogaidd**
Mae ymwelwyr tramor yn fwyaf tebygol o aros yn Aberystwyth, gyda bron 15,000 o ymweliadau rhyngwladol y flwyddyn, ac Aberhonddu, gyda bron 12,000.

Ffig. 2.3: Gwlad Tarddiad Ymwelwyr (Ymweliadau Rhyngwladol)



## 3. Ymweliadau Dydd


Daw data yn yr adran hon o Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.

Ar gyfartaledd, dros y pedair blynedd 2011-2014, cafwyd 12 miliwn o ymweliadau dydd â'r Gogledd. Y gwariant cysylltiedig â'r ymweliadau dydd hyn oedd £367 miliwn y flwyddyn, sef 11% o wariant ar yr holl ymweliadau dydd yng Nghymru. Mae’r rhanbarth hwn yn derbyn y nifer leiaf a’r gwariant cysylltiedig lleiaf o’r rhanbarthau yng Nghymru.  Er i hyn ymddangos yn ddigalonogol, mae rhaid cofio bod canran uchel o deithiau undydd yn gyffredinol yn tarddu yn y rhanbarth ei hun.  Canolbarth Cymru yw’r ardal fwyaf prin ei phoblogaeth yng Nghymru, ac un o ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth yng Nghymru a Lloegr, ac felly ni ddylai’r ffaith bod y rhanbarth yn gweld llai o deithiau undydd synnu neb.

**Gweithgareddau**

Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar ymweliad dydd oedd cymryd rhan mewn chwaraeon, gyda 6 miliwn o ymweliadau y llynedd yn cynnwys hyn fel gweithgaredd.  Mae hyn yn gyfran lawer uwch nag yn unrhyw ranbarth arall yng Nghymru, ac mae’n adlewyrchu, o bosibl, y cyfleoedd y mae’r rhanbarth yn eu cynnig i gymryd rhan mewn chwaraeon fel beicio mynydd.

Ffigwr 3.1: Gweithgareddau Cyffredin ar Ymweliad Dydd (Ymweliadau Dydd)





Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn ar o leiaf 1 filiwn o ymweliadau.

**Math o Le**

Roedd cyfran uwch na ddisgwylid o ymweliadau undydd â dinas neu dref fawr: derbyniodd y math hwn o gyrchfan y nifer uchaf o ymweliadau yn y rhanbarth. Er gall hyn bod yn syndod i ddechrau, rhaid cofio bod canran uchel o ymweliadau undydd yn gynharol leol, a bod dewis y categori o fath o le yn oddrychol. Felly, er na fyddai ymwelwr o Birmingham yn debygol o ystyried Aberystwyth, er enghraifft, fel tref fawr, mae’n dra phosibl y byddai ymwelwr o Bowys yn categoreiddio Aberystwyth felly.


Ffigwr 3.2: Y Math o Le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau Dydd)




**Dull Teithio**

Mae hefyd gysylltiad posibl rhwng y ganran uwch o ymweliadau a wnaethpwyd gan defynddio'r trên, a'r ganran o ymweliadau â threfi fawr, oherwydd, yn aml, fe leolir gorsafoedd rheilffordd yn y trefi mwyaf. Mae gan y rhanbarth hwn y lefelau uchaf o bell o ddefynydd trên ar gyfer ymweliadau undydd, gyda dros draean o ymwelwyr undydd â'r Canolbarth yn defnyddio'r trên fel eu prif dull teithio.

Ffig 3.3: Dull teithio (Ymweliadau Dydd)





Ynglŷn â'r pwynt uchod, mae'n werth ei nodi bod y rhanbarth yn cynnwys un o brif linelloedd rheilffordd Cymru, sef y llinell o Aberystwyth i'r Amwythig, a hefyd rhan fawr o Reilffordd Calon Cymru, a ddefnyddir gan ychydig llai o deithwyr. Amcangyfrifir bod 303,700 taith wedi dechrau neu orffen yn orsaf Aberystwyth yn y flwyddyn ariannol 2014-15 (Ffynhonnell: Office of Rail and Road, blwyddyn ariannol 2013-14).

**Y Pellter Teithio**

Teithoedd cyfran fawr iawn o ymwelwyr undydd â'r Canolbarth dros bedwar deg o filltiroedd, ond teithoedd bron chwater llai na 5. Mae gan y rhanbarth hwn y gyfran uchaf o ymwelwyr undydd sy'n teithio pellterau hir iawn neu fyr iawn, ac y gyfran isaf o ymwelwyr undydd sy'n teithio rhwng 5 a 40 milltir. Mae'r gyfran fawr o teithiau hir yn cyd-fynd â chymeriad y rhanbarth, ond mae amlder teithiau byr yn syndod.

Ffig. 3.4: Y Pellter Teithio (Ymweliadau Dydd)




**Rhanbarth Tarddiad**

Mae'r Canolbarth yn anarferol am fod ond cyfran eithr isel o ymweliadau undydd â'r rhanbarth yn tarddu yng Nghymru. Nid oes rhanbarth unigol o le y mae ymwelwyr undydd yn fwy tebygol o darddu ohono. Er i Orllewin Canolbarth Lloegr fod yn darddiad eithaf cyffredin ar gyfer ymweliadau undydd â'r Canolbarth, nid yw'r rhanbarth hwn mor bwysig o gymharu â tharddiad teithiau dros nos.

Tabl 3.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau Dydd)

| Rhanbarth Tarddiad | Ymweliadau, Miliwn |
|---|---|
| Canolbarth Cymru | 2 |
| De-Orllewin Cymru | 1 |
| De-Ddwyrain Cymru | 2 |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 1 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 2 |


Yn cynnwys pob rhanbarth sy'n rhanbarth tarddiad ar gyfer o leiaf 1 miliwn ymweliadau dydd.

## 4. Defnydd Llety

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Defnydd Llety Twristiaeth Cymru. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad y Canolbarth, oedd yn cynnwys Meirionnydd.


Nid yw’r Canolbarth yn perfformio’n wych yn yr ystadegau defnydd llety o gymharu â’r rhanbarthau eraill. Mae ganddo’r gyfradd leiaf ar gyfer defnydd gwely ac ystafelloedd ar gyfer gwestai a llety Gwely a Brecwast/ Tai Llety, a hefyd y gyfradd defnydd leiaf ar gyfer unedau hunan-ddarpar.

Ffig. 4.1: Cyfraddau defnydd dros amser




Nid oes tueddiad gweladwy eglur o ran newid yn y gyfradd defnydd dros amser, er bod tueddiad bach i’r gyfradd defnydd dyfu hyd at tua 2011-12 ac wedyn i leihau.

Ffig. 4.2 Cyfradd defnydd, 2014




## 5. Cyflogaeth

Daw data yn yr adran hon o Ystadegau Sector â Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall.


Mae'n amlwg bod twristiaeth o bwysigrwydd arbennig i economi'r Canolbarth, gydag 11.3% o'r holl gyflogaeth yn y rhanbarth yn y sector twristiaeth, y gyfran uchaf ymhlith rhabarthau Cymru. Yn 2014, roedd cyflogaeth yn y sector yn 17,600, cynydd o'r ffigur o 15,100 yn 2005. Yn ogystal, mae'r gyfran o gyflogaeth sydd yn y sector wedi cynyddu dros y cyfnod.

Ffig. 5.1: Cyflogaeth mewn twristiaeth




Mae gan Bowys a Cheredigion cyfrannau tebyg o gyflogaeth mewn twristiaeth. Er bod cyfran Ceredigion yn tueddu i fod tipyn yn uwch, mae'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Ffig. 5.2: Cyfran o gyflgaeth yn y sector twristiaeth



Ffig. 5.3 Cyflogaeth mewn twristiaeth dros amser




## 6. Stoc gwlâu


Daw data yn yr adran hon o'r adroddiad Stoc Gwlâu. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2013 oni nodir fel arall.

Yn y Canolbarth ceir tua 13% o'r gwlâu sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer ymwelwyr, a 16% o'r sefydliadau llety, felly mae'r rhanbarth yn darparu tua wythfed, fel cyfanswm, o'r holl wlâu sydd ar gael ar gyfer ymwelwyr.


Ffig. 6.1: Gwlâu Twristiaeth





Ffig 6.2 Gwlâu Llety â Gwasanaeth



Ffig. 6.3: Gwlâu Hunanddarpar




Ffig. 6.4 Gwlâu mewn Gwersyll/Carafán




Mae'r cyfrannau o'r mathau gwahanol o wlâu sydd ar gael yn y rhanbarth hwn yn debyg i gyfartaledd Cymru, er bod cyfran ychydig uwch o lety amgen. Serch hynny, dim ond cyfran fach iawn o'r holl stoc sydd yn y categori yma. Mae gan Bowys ychydig fwy o wlâu na Cheredigion; heblaw am hynny mae'r stoc gwlâu sydd ar gael yn debyg iawn dros y ddau awdurdod lleol.